**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 9 Mai 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

***Aelodau***

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Eleanor Burnham | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc y Pwyllgor |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Derek Adams | Pennaeth, yr Is-adran Addysg Uwch |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Michael Jones | Yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Angela Powell | Yr Is-adran Perfformiad Ysgolion |
| Peter Greening | Yr Is-adran Hyfforddiant, Medrau a Gyrfaoedd |
| Stuart Neil | Yr Is-adran Ystadegau |
| Robert Hay | Yr Is-adran Ystadegau |
| Catrin Huws | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Janice Gregory

**Dirprwyadau**

Dim

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd;
ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Gareth Jones Athro Cofrestredig; ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

***Y Gr^wp Ymchwilio i Gyni Myfyrwyr:*** Atgoffaodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod y Gr^wp Ymchwilio i Gyni Myfyrwyr i fod i roi ei gyflwyniad i'r Pwyllgor ar 23 Mai. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod â'r Athro Teresa Rees, Cadeirydd y Gr^wp, ac yr oedd wedi'i hysbysu eu bod braidd yn hwyr gyda'u rhaglen, oherwydd natur gymhleth eu hymchwiliad. Oherwydd hynny, yr oedd yr Athro Rees wedi awgrymu y dylid defnyddio'r cyfarfod i roi cyfle i'r Pwyllgor roi eu sylwadau i'r Gr^wp ac yr oedd wedi cynnig amlinellu prif thema'r ymchwiliad, yn hytrach na rhoi cyflwyniad am ganfyddiadau'r Gr^wp. Gan fod y bwriad hwn yn wahanol i ddiben gwreiddiol y cyfarfod, hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod o'r farn nad hynny fyddai'r defnydd mwyaf effeithiol o'u hamser ac awgrymodd y dylid gohirio cyflwyniad y Gr^wp tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i roi eu barn ar y mater hwn.

Mynegodd Eleanor Burnham bryder ynghylch gohirio'r adroddiad hwn a oedd eisoes yn hwyr. Gofynnodd Jonathan Morgan ba bryd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad, os nad oedd i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 23 Mai. Mynegodd Gareth Jones deimladau tebyg. Atebodd y Cadeirydd mai amhriodol fyddai achub y blaen ar ganfyddiadau'r adroddiad cyn ei gyhoeddi; byddai'n fuddiol derbyn yr adroddiad cyn i'r Pwyllgor ymateb i argymhellion/ canfyddiadau'r Gr^wp. Atgoffaodd y Gweinidog y Pwyllgor bod y Gr^wp yn annibynnol ar y Pwyllgor a'i fod yn cynhyrchu ei dystiolaeth ei hun. Yr oedd yr adroddiad i'w lansio yn y Cynulliad ar 14 Mehefin 2001 pan gâi'r Aelodau weld yr adroddiad. Hefyd, yr oedd y Gweinidog i fod i roi datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin mewn perthynas â'r adroddiad hwn a byddai'n barod i ohirio hynny os oedd y Pwyllgor yn dymuno hynny. Sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor na fyddai effaith ar ymateb yr Weithrediaeth i'r ymchwiliad hwn, hyd yn oed os âi'r datganiad hwn i'r Cyfarfod Llawn yn ei flaen. Cododd Pauline Jarman fater ymrwymiad y Pwyllgor i'r cytundeb Partneriaeth. Atebodd y Gweinidog fod yn rhaid i'r Pwyllgor ddisgwyl canlyniad yr argymhellion cyn rhoi sylw i'r mater hwn.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Pwyllgor yn fodlon gohirio cyflwyniad y Gr^wp i'r Pwyllgor tan 11 Gorffennaf. Cytunodd y Pwyllgor i ddilyn arweiniad y Cadeirydd ar y mater hwn. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd a oedd y Pwyllgor yn dymuno i'r Gweinidog ohirio ei datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar fater Cyni Myfyrwyr. Atebodd y Pwyllgor eu bod yn fodlon i ddatganiad y Gweinidog i'r Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin aros fel y trefnwyd o'r blaen.

***Corus – Mesurau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth:*** Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi gofyn am gynnal cyfarfod ar y cyd i holi'r Gweinidogion perthnasol yn fanwl ynghylch yr agweddau ymarferol ar y pecyn mesurau gwerth £66 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Brif Weinidog Cymru. Gan gymryd i ystyriaeth gohirio cyflwyniad yr Athro Rees i'r Pwyllgor ar 23 Mai, gellid cynnal sesiwn ar y cyd yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod hwnnw. Gwahoddwyd y Pwyllgor i roi sylwadau ar yr awgrym hwn. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cael y sesiwn ar y cyd hwn.

***Hysbysiad o dan Reol Sefydlog 5.6:*** Dywedodd y Cadeirydd fod y Dirprwy Lywydd wedi cyfeirio'r *'Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001'* i'r Pwyllgor i'w hystyried, gyda chyfrifoldeb i adrodd yn ôl o fewn tair wythnos (erbyn 29 Mai). Cytunodd y Pwyllgor y dylid rhoi'r eitem hon ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 17 Mai. Byddid yn dosbarthu'r papurau perthnasol i Aelodau'r Pwyllgor ar ddydd Gwener 11 Mai.

**Eitem Un: Adroddiad gan Weinidog y Cynulliad**

***Papur: ELL 08-01(p.1)***

1.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad misol i'r Pwyllgor, a oedd yn cynnwys eitemau ar gais Aelodau. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys Dadansoddiad annibynnol o Gyllid Ysgolion yng Nghymru ar gyfer 2000-01 a chymhariaeth â Lloegr. Yr oedd y gwaith wedi'i wneud ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rhoddodd swyddogion o Gyfarwyddiaeth Ystadegau'r Cynulliad (Stuart Neil a Robert Hays) gyflwyniad ar y pwnc hwn a chyplysir copi ohono yn Atodiad 1-4. Nododd Stuart Neil fod yr wybodaeth wedi dod oddi wrth Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) yn hytrach nag oddi wrth ysgolion unigol. Gwahoddwyd Peter Tyndall (Pennaeth Addysg, Hyfforddiant a Materion Diwylliannol yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) i gymryd rhan yn y drafodaeth hefyd a chael ei holi gan y Pwyllgor.

1.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw ddadansoddi wedi'i wneud ar lefel ysgolion. Atebodd Stuart Neil nad oedd gwaith wedi'i wneud hyd yn hyn ar gysylltu ffigurau gwariant â ffigurau cyflawniad ar lefel ysgolion. Yr oedd rhai anawsterau ynghylch hynny gan fod asesu gwariant dirprwyedig yn wahanol i asesu'r gwariant cyfan. Dim ond os oedd gwariant cyflawn i bob disgybl yn cael ei ddefnyddio y ffyddai'n bosib i weld yn gyflawn y ddarpariaeth i bob disgybl a gwneud cymhariaeth.
- Yr oedd peth pryder ynghylch lefel yr amrywiaeth mewn gwariant ledled Cymru. Teimlwyd bod angen rheoleiddio 'cyfleoedd bywyd' ledled Cymru a rhoi sylw i'r gwahanrediad pendant yn y gwariant/cyflawniad rhwng Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 4. Atebodd Peter Tyndall fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gwneud rhagor o waith ar amddifadedd cymdeithasol ac y câi'r gwaith hwn ei borthi i weithgor y Cyngor Partneriaeth a oedd yn edrych ar leihau y gap mewn perfformiad rhwng ysgolion ar gyfer ystyriaeth.

- Cododd yr Aelodau'r mater o ganfyddiad y cyhoedd bod AALlau yn derbyn cyllid ar gyfer ysgolion ond nad oeddent yn trosglwyddo'r arian hwn i'r ysgolion. Gyfynent pa ganran o'r arian yr oedd AALlau yn ei dal? Hysbysodd Stuart Neil y Pwyllgor bod y ffigurau'n amrywio rhwng 75% a 85% o'r gyllideb gyffredinol. Yr oedd ardaloedd gwledig, a oedd â llawer o ysgolion bach a chostau trafnidiaeth uchel yn cael cyfraddau dirprwyo isel a chyfraddau dirprwyo ardaloedd trefol, â'u harbedion maint, yn uchel.
- Cododd y Cadeirydd y mater o ba un a oedd Cymru'n derbyn cyfran is o gyllid ar gyfer ysgolion/ addysg o'i chymharu â Lloegr ac a oedd y dadansoddiad hwn o gyllid ysgolion yn profi hynny. Dywedodd Stuart Neil fod y cyllidebau a oedd wedi'u pennu yn gymharol i rai Lloegr – mewn termau Lloegr a Chymru. yr oedd Cymru'n ardal anfetropolitanaidd. Nid oedd yr ystadegau hyn yn ategu'r cyhuddiad bod Cymru'n derbyn llai o gyllid ar gyfer addysg ysgolion na Lloegr.
- Mynegodd yr Aelodau y buasai'n fuddiol cynnwys y ffigurau gwariant amcanestynedig ar gyfer y tair blynedd nesaf yn y dadansoddiad ystadegol. Teimlodd yr Aelodau fod yna achos i gael gwell cydbwysedd o wariant ar y grant GCAH ac efo'r angen, yn ol y lefelau o ddifeddianu.

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod pa gyfran o'r gwasanaethau canolog a oedd yn cael ei chymryd gan drafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Atebodd Stuart Neil fod hyn yn amrywio: gan Gaerdydd yr oedd y gwariant isaf ar 2% a chan Bowys yr oedd yr uchaf ar 8%.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n fuddiol pe byddai modd i'r Gyfarwyddiaeth Ystadegau ddarparu gwybodaeth ar y gyfran o'u cyllideb gyfan yr oedd yr Awdurdodau Lleol hynny'n ei gwario ar addysg; ar ffurf siart, os oedd modd.
- Daeth y Gweinidog i'r casgliad bod cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn gyfartal â hynny yn Lloegr ond mi oedd pryder ganddi ynghlyn a chasglaidau diweddar gwaith y Comisiwn Archwilio bod nifer o awdurdodau lleol heb adolygu eu fformwlae ar gyfer dosbarthiad adnoddau i ysgolion, i sicrhau eu bod yn barhau i adlewyrchu yr angen. Dwedodd y Gwenidog y fyddai'n trafod y mater yma efo'r Comisiwn Archwilio a'r Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Gofynnodd y Gweinidog i'r Aelodau roi sylwadau ysgrifenedig iddi ar y mater hwn os dymunent.

**Eitem Dau: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniad Thema Allweddol – Llywodraethu – gan yr Athro Mike Shattock a'r Athro Keith Robbins ar ran Addysg Uwch Cymru.**

**Papur: ELL 08-01(p.2) a (p.3)**

2.1 Cyfeiriodd yr Athro Mike Shattock, Darlithydd Gwadd ym Mhrifysgol Llundain (Canolfan Astudiaethau Addysg Uwch) at ei bapur. Cyfeiriodd yr Athro Keith Robbins, ar ran Addysg Uwch Cymru, at ei bapur hefyd.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth oedd orau gan yr Athro Shattock o ran yr elfennau mewn corff llywodraethu. Atebodd yr Athro Shattock ei fod o blaid y strwythur prifysgol cyn 1992 o gael ethol elfen academaidd y corff llywodraethu gan y senedd. Yr oedd o blaid cael corff llywodraethu wedi'i rannu'n ddwy ran o dair yn aelodau lleyg ac un rhan o dair yn aelodau academaidd.
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Athro Shattock wneud sylw ynghylch a oedd yn credu mai strwythur ffederal a fyddai'n gweddu orau i Gymru ac, os felly, pa mor ffurfiol neu lac y dylai'r strwythur hwnnw fod? Dadleuodd yr Athro Shattock y dylai sefydliadau ystyried eu dyfodol/troedle eu hunain ac nad oedd strwythurau a safai rhwng sefydliadau ac asiantaethau cyllido yn fuddiol. Yr oedd prifysgolion ffederal, fel y rhai yn Llundain, wedi gweithio'n dda yn y gorffennol ond, ar hyn o bryd, byddai'r strwythur ffederal yn dechrau arafu pethau.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at bapur yr Athro Shattock a gofyn iddo wneud sylw ar yr hyn a ffafriai er mwyn cryfhau rôl y Cyngor Cyllido. Atebodd yr Athro Shattock fod y Cyngor Cyllido yng Nghymru yn eithaf pwerus eisoes oddi mewn i'r sector Addysg Uwch yng Nghymru. Oherwydd y gwahaniaeth ym meintiau a chenadaethau'r sefydliadau yng Nghymru, dylid cael rhyw bolisi wedi'i lunio'n rhannol drwy gorff rhyngol, nid yn unig drwy lywodraeth. Fodd bynnag, ni ddylai hynny wanhau ymreolaeth sefydliadau unigol. Nid oedd angen newid mawr ond dylid rhoi rôl fwy blaengar i'r Cyngor Cyllido gyda rhai pwerau wrth gefn ar gyfer cenadaethau cyllid.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod am y modd gorau i'r sector Addysg Uwch gadw'r ddysgl yn wastad rhwng y gofynion i roi cyfrif am arian cyhoeddus ac i gadw lefel uchel a

chyson yn ansawdd ei ddarpariaeth heb gael ei orlwytho gan fiwrocratiaeth. Atebodd yr Athro Shattock y byddai llai o fiwrocratiaeth yn sicrhau'r gofynion hynny. Yr oedd gan sefydliadau ddiddordeb hanfodol mewn darpariaeth o ansawdd da am mai hynny oedd yn denu myfyrwyr a chymorth ariannol. Yr oedd llywodraethu da yn golygu cael aelodau lleyg cryf yn gweithio'n agos gydag aelodau academaidd.

- Gofynnodd yr Aelodau i'r Athro Shattock wneud sylw am y modd y gellid cyflawni'r angen am atebolrwydd a sicrhau, ar yr un pryd, fod sefydliadau Addysg Uwch yn dod yn fwy arloesol ac entrepreneuraidd, a allai olygu'n anochel yr angen i fentro. Hysbysodd yr Athro Shattock y Pwyllgor nad oedd mentro a chreu arian yn anghyson â'i gilydd. Byddai mwy o arian yn cynyddu ansawdd y cynnyrch/darpariaeth mewn sefydliadau Addysg Uwch.
- Y cwestiwn o ba un a oedd sefyllfa'r sefydliadau cyfansoddol, sef prifysgolion Abertawe, Aberystwyth a Bangor ym Mhrifysgol Cymru, yn cael ei hystyried yn amwys ledled y DU. Sicrhaodd yr Athro Shattock y Pwyllgor fod y sefydliadau hyn yn uchel eu bri yn rhyngwladol. Yn ogystal â hynny, yr oedd y sefydliadau hyn yn denu myfyrwyr o Loegr.
- Gofynnodd y Gweinidog i'r Athro Shattock wneud sylw ynghylch sut yr oedd yn rhagweld, os câi'r Cyngor Cyllido rôl fwy cefnogol yng Nghymru, yn debyg i hynny yn UDA, y byddai'r cynigion hyn yn cael eu cyflawni. Yr oedd yr Athro Shattock wedi bod mewn sawl pwyllgor cyd-drefnu yn UDA a rhoddodd yn enghraifft fod sawl sefydliad yn Efrog Newydd wedi bwriadu ffurfio cyfadran feddygol/iechyd. Yr oedd y sefydliadau wedi ystyried hyn yn ôl anghenion y dalaith/Efrog Newydd, nid ar sail cystadlu ac wedyn cyflwynwyd argymhellion gan y corff cyd-drefnu mewn perthynas â chyllido. Dylai cyngor cyllido gefnogi sefydliadau a'u hybu ac nid annog cystadlu.
- Gofynnodd y Gweinidog am ymateb yr Athro Shattock ynghylch y modd y gellid rhoi sicrwydd i fyfyrwyr y byddai unrhyw gwynion a wnaethpwyd ganddynt yn cael eu prosesu'n briodol ac yn derbyn gwrandawiad teg. Dywedodd yr Athro Shattock ei bod yn well ganddo'r system Ymwelydd ac nid awgrym U-UK o ombwdsmon. Nid oedd ombwdsmon yn meddu ar y p^wer i ddod ag achosion i'w terfyn, oherwydd gallai cwynion gyrraedd y llysoedd. Yr oedd y p^wer hwnnw gan yr Ymwelydd. Yr oedd ar brifysgolion newydd angen deddfwriaeth newydd i gael Ymwelwyr (fel yn y system cyn 1992).
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Athro Robbins wneud sylw ynghylch yr hyn a deimlai'r sector fyddai rôl Cofrestrfa Prifysgol Cymru yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â lleihau'r baich o atebolrwydd ac yn arbennig oddi mewn i fodel "un wlad, un brifysgol". Dywedodd yr Athro Robbins fod nifer staff y Gofrestrfa wedi'i leihau o'i lefelau blaenorol, a bod cytundeb ar gydbwysedd y rolau rhwng y Gofrestrfa a'r sefydliadau cyfansoddol. Hysbysodd y Pwyllgor fod angen mwy o gydweithio ar sail Cymru gyfan, gan gynnwys cydweithio ar ddarparu gwasanaeth. Cyn y gellid cael y cydweithio hwn, byddai angen llawer iawn o ymgynghori. Ni allai Cofrestrfa Prifysgol Cymru ddarparu pob dim.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Robbins wneud sylw am syniadau'r Athro Shattock i roi mwy o b^wer i'r Cyngor Cyllido a chymryd rhai o'r swyddogaethau oddi wrth brifysgolion, ac eto rhoi rôl newydd iddynt. A fyddai'r syniadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd? Atebodd yr Athro Robbins y Cadeirydd a dweud ei fod yn credu'n bersonol fod y syniadau hyn yn gyson ac yn gweithio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, ni ddylai prifysgolion orfod ildio eu hymreolaeth a'u hannibyniaeth – yr oedd hyn wedi bod yn destun pryder cyn hyn ym Mhrifysgol Cymru. O ran cydweithio, dylai'r prifysgolion geisio penderfynu ynghylch agweddau ar hynny mewn partneriaeth â'r Cyngor Cyllido. Dylid cael deialog rhwng y partïon hyn er budd i'r ddwy ochr.
- Gofynnodd y Cadeirydd hefyd i'r Athro Shattock a oedd yn rhagweld y gallai sefydliadau bach barhau mewn marchnad arbenigol ac a ddylai'r Cyngor Cyllido sicrhau bod y sefydliadau bach

hyn yn adeiladu ar sail eu cryfderau penodol ac yn datblygu eu troedleoedd presennol. Cytunodd yr Athro Shattock yr hoffai weld y Cyngor Cyllido yn ymgymryd â'r union rôl honno ac yn hybu sefyllfa lle ceir biwrocratiaeth ryngol a allai arwain at gyfaddawd. Mewn perthynas â sefydliadau llai eu maint, efallai y byddai arnynt angen cymorth i weld neu yn wir i newid marchnadoedd. Mae ar sefydliadau Addysg Uwch angen cymorth i ymgynnal.

- Yr oedd yr Aelodau'n awyddus i wybod beth oedd y cydbwysedd cywir rhwng hybu ymreolaeth mewn sefydliadau a'r angen i roi ymateb cadarnhaol i agenda'r Cynulliad. Atebodd yr Athro Robbins fod yn rhaid cael deialog gyson rhwng y Cynulliad a'r sector Addysg Uwch yng Nghymru.

**Eitem Tri: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniad Thema Allweddol – Ymchwil – gan y Dr John Taylor a'r Athro Syr Brian Smith, ar ran Addysg Uwch Cymru.**

***Papur: ELL 08-01(p.4) a (p.5)***

3.1 Siaradodd y Dr John Taylor, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Cynghorau Ymchwil, ar sail ei bapur. Siaradodd yr Athro Brian Smith hefyd ar sail ei bapur a dosbarthodd bapur atodol yn y cyfarfod i'r Aelodau. Gellir ei weld yn Atodiad 5.

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Nododd y Gweinidog fod rhai sefydliadau yng Nghymru eisoes yn cystadlu yn ôl safonau rhyngwladol drwy'r Ymarfer Asesu Ymchwil ond nad oeddent yn derbyn cyllid gan y Cynghorau Ymchwil er hynny. Sut y gallai Cymru wneud yn well yn hyn o beth? Dywedodd y Dr Taylor fod nifer uchel o geisiadau am gyllid ar gyfer ymchwil a bod cost yr ymchwil ei hun yn cynyddu. Canolbwyntir ar fannau lle y ceir màs critigol, yn enwedig ar gyfleusterau/seilweithiau. Yr oedd angen cydweithredu a chydweithio rhwng adrannau/sefydliadau. Dylid cael llai o ficro-reolaeth ar sefydliadau a mwy o ddeialog strategol.
- Gofynnodd y Gweinidog hefyd a fyddai Cymru'n denu mwy o gyllid ar gyfer ymchwil o'r tu allan drwy gael un neu ddau sefydliad mwy a arweinir gan ymchwil. Dywedodd y Dr Taylor na fyddai hynny'n gwarantu cyllid neu ymchwil lwyddiannus. Yr oedd yn rhaid i sefydliadau ddynodi meysydd lle'r oedd dawn a phwysigrwydd. Yr oedd unigolion yn bwysig: yr oedd yn rhaid i sefydliadau ystyried pa amgylcheddau y câi pobl o safon fyd-eang eu denu iddynt. Yr oedd Ymddiriedolaeth Wilson wedi'i chreu er mwyn dod â phobl dalentog yn ôl i'r DU.
- Cododd y Cadeirydd y cwestiwn o sut y gallai Cymru, â'i sefydliadau bach a gwasgarog, sicrhau seilwaith datblygedig a màs critigol; a oedd canolfannau rhagoriaeth yn syniad da? Mynnodd y Dr Taylor fod yn rhaid gofyn y cwestiwn hwn yng nghyd-destun disgyblaeth ymchwil. Er enghraifft, yn yr adolygiad gwariant diwethaf – yr oedd 40 o brifysgolion yn y DU wedi ymuno â'r Arsyllfa Ddeheuol Ewropeaidd ar brosiect ALMA. Gellid crybwyll enghreifftiau tebyg o gydweithio mewn ffiseg gronynnau; rhaid wrth gydweithio rhyngwladol o'r fath os yw sefydliadau'n dymuno hwyluso ymchwil, gan ddefnyddio cyfleusterau cyfalaf drud iawn, ond nid oedd hyn yn angenrheidiol ym mhob achos.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod sut y byddai gweithio/dysgu electronig yn effeithio ar ymchwil o safon fyd-eang: a fyddai'r cyfranogion yn dymuno cael cysylltiad wyneb yn wyneb? Dywedodd y Dr Taylor y byddai pobl bob amser yn dymuno cyfarfod ac ymgynnull. Nid oedd dysgu electronig yn rhwystr i gyfranogi wyneb yn wyneb.

- Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch gwyddoniaeth electronig ac a fyddai technoleg amrediad llydan o fudd i'r sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Datganodd yr Athro Smith fod y seilwaith amrediad llydan yng Nghymru yn dda iawn: yr oedd y grid yn cynnwys llinellau 2.5 gigabeit. Ychwanegodd y Dr Taylor fod y seilwaith gwyddoniaeth electronig wedi'i seilio ar yr hyn a ddilynai genhedlaeth y Rhyngrwyd a'r We Fyd-eang. Y cam nesaf oedd y cyfleustod cyfrifiaduro a gwybodaeth. Yr oedd gan ddarlithwyr prifysgol yng Nghymru gyfle da i gael mynediad i systemau grid.
- Nododd yr Aelodau hefyd fod datblygiadau mewn gwyddoniaeth electronig yn adlewyrchu datblygiad economi Cymru. Dywedodd yr Athro Smith fod yn rhaid i brifysgolion ddatblygu cymdeithas sydd yn seiliedig ar wybodaeth. Ni allai Cymru ddibynnu ar hen ddiwydiant. Ni ddylai sefydliadau Addysg Uwch ganolbwyntio'n ormodol ar y drydedd genhadaeth ond rhaid iddynt fod yn barod ar gyfer pob newid annisgwyl.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a oedd seilwaith amrediad llydan yng ngogledd Cymru. Atebodd yr Athro Smith fod gan sefydliadau Addysg Uwch yng ngogledd Cymru fynediad i JANET (rhwydwaith ar gyfer y gymuned addysg ac ymchwil). Yr oedd y seilwaith ffisegol ar gyfer opteg ffibr amrediad llydan wedi'i sefydlu. Yr oedd yn bosibl, er hynny, nad oedd rhai sefydliadau wedi cysylltu ag ef gan ei fod yn ddrud iawn.
- Gofynnodd yr Aelodau pam nad oedd cais ar y cyd mewn Ffiseg yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil, gan fod y Gyfadran, oddi mewn i Brifysgol Cymru, wedi'i hystyried yn enghraifft o arfer da o ran cydweithio. Dadleuodd yr Athro Smith fod cydweithio wedi digwydd o ran hyfforddi myfyrwyr ond nid oedd y Gyfadran wedi cyflawni rheolau'r Ymarfer Asesu Ymchwil ar geisiadau ar y cyd hyd yn hyn. Yr oedd pob gobaith y gellid cyd-drefnu'r gwahanol gryfderau yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil nesaf.
- Nododd y Cadeirydd fod ymchwil ranbarthol ac ymchwil genedlaethol yn bwysig. Yr oedd gan Gymru nifer mawr o unedau ymchwil a oedd yn cyrraedd Gradd 3 yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil, felly sut y gellid cryfhau'r unedau hyn a'u datblygu? Dywedodd y Dr Taylor fod Papur Gwyn y Llywodraeth (yr haf diwethaf) yn cyfleu negeseuon am fwy o amrywiaeth gyda rhagoriaeth rhwng sefydliadau. Dylid symud oddi wrth greu gwybodaeth am wyddoniaeth a thechnoleg bur; dylid rhyddhau adrannau i feysydd newydd a defnyddio (gwybodaeth) mewn technolegau newydd. Dywedodd y Dr Taylor iddo fod yn gysylltiedig â chanolfannau Faraday, sydd yn hybu gweithgaredd o'r math hwn.

**Eitem Pedwar: Adroddiad Gwaith a Blaenraglen Waith Strategol**

***Papur: ELL 08-01(p.6) a (p.7)***

4.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, bydd pob pwyllgor pwnc yn cynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf. Bydd pob pwyllgor pwnc yn hysbysu'r Cynulliad yngl^yn â'i raglenni, a bydd yn adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar ei gynnydd wrth eu cyflawni. Yr oedd cyfle gan y Pwyllgor yn y sesiwn hwn i wneud sylwadau ar adroddiad gwaith drafft a baratowyd gan y Clerc a hefyd y Flaenraglen Waith gyfredol.

4.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar yr adroddiad a rhoddwyd y sylwadau canlynol yn y drafodaeth:

- Awgrymodd y Cadeirydd y dylai (p.2) yn yr adran ar Egwyddorion Polisi: *"Rhoi Cymru'n Gyntaf:*

*Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru"* ddarllen *"fframwaith y glymblaid…".* Nododd y Gweinidog mai dim ond y ddogfen "Rhoi Cymru'n Gyntaf" a oedd yn rhoi amlinelliad digonol o'r fframwaith ar gyfer polisi addysg yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Clerc ddyfeisio ffurf geiriau addas a fyddai'n cymryd y pwynt hwn i ystyriaeth.

- Cododd y Cadeirydd y mater o ba un a oedd y Pwyllgor, *"yn cymryd i ystyriaeth gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau â'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol a'r cynllun datblygu cynaliadwy..." (p.2)* gan nad oedd y Pwyllgor wedi ymdrin yn ddigonol eto â'r materion hyn. Awgrymodd y Gweinidog y dylai'r frawddeg ddarllen, *" yr oedd gwaith y Pwyllgor yn gweithredu yng nghyd-destun cynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol…*" gan fod yn rhaid i'r Pwyllgor gymryd sylw o gynlluniau statudol y Cynulliad.
- Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y dylid newid y frawddeg (p.3) sydd yn dechrau, *" Prif argymhellion yr adroddiad…"* yn, *" Argymhellion yr adroddiad sydd â blaenoriaeth…".*
- Credai'r Cadeirydd ei bod yn fwy synhwyrol dweud yn (p.9*), " Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch o etifeddu cyllideb gadarnhaol..."* yn hytrach na, *"Yr oedd y Gweinidog yn falch o etifeddu cyllideb gadarnhaol…".* Yr oedd y Gweinidog yn fodlon ar y newid hwn.
- Gofynnodd y Gweinidog a oedd modd i'r frawddeg yn (p.7*), " Nododd y Cadeirydd y cyhoeddiad gweinidogol hwn ond awgrymodd y dylai cyni myfyrwyr aros o fewn cylch gwaith yr Adolygiad Addysg Uwch…"* ddarllen, *" Nododd y Cadeirydd y cyhoeddiad gweinidogol hwn ond awgrymodd y dylai cyni myfyrwyr hefyd aros o fewn cylch gwaith yr Adolygiad Addysg Uwch…"*
- Dywedodd y Cadeirydd fod angen newid yr adran ar *Adolygiad o Gyrff a Noddir gan y Cynulliad* gan mai'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes oedd: y Cyngor Cyllido Addysg Uwch; Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru; Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa); a Thasglu'r Fargen Newydd i Gymru.
- Awgrymodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor y dylai (p.9), *" adolygiad o'r agweddau addysgol ar yr iaith Gymraeg",* ddarllen, *" adolygiad ar yr agweddau addysgol ar bolisi Iaith Gymraeg…"*
- Awgrymodd y Cadeirydd y dylid hepgor Atodiad 2, gan nad oedd angen ei gynnwys mewn gwirionedd yn Adroddiad y Pwyllgor.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau hyn*.*

4.3 Nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau ar y Flaenraglen Waith Strategol ddiwygiedig.

**Eitem Pump: Cofnodion Cyfarfod 4 Ebrill**

***Papur: ELL 07-01(mins)***

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod. Nid oedd awgrymiadau na sylwadau.

**Papurau i'w Nodi**

**Papur i'w Nodi: Adolygiad Polisi – Cyflenwad o Leoedd Ysgol**

**Papur: ELL 08-01(p.8)**

**Papur i'w Nodi: Llythyr cylch gwaith Estyn (2001-02) oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol**

**Papur: ELL 08-01(p.9)**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2001**

**Atodiadau**

**Mae'r atodiadau yn cael ei gyhoeddi yn yr iaith a dderbynient.**